Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Aran Hall

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi:  29/06/2018**

## Cyd-destun

Mae Aran Hall yn ysgol arbennig annibynnol wedi'i lleoli gerllaw Dolgellau yng Ngwynedd. Mae'r ysgol yn un o 5 ysgol arbennig sy'n cael eu gweithredu ar draws Cymru a Lloegr gan grŵp SENAD.

Mae'r ysgol yn darparu addysg, gofal a therapi i ddisgyblion 11 i 19 oed sydd ag ystod o anableddau dysgu, anhwylderau'r sbectrwm awtistig ac ymddygiadau heriol cysylltiedig.

Ar hyn o bryd, mae 11 disgybl ar gofrestr yr ysgol, bob un ohonynt yn fechgyn sy'n byw yn y cartref plant sy'n rhannu safle'r ysgol. Mae gan bob un o'r disgyblion gynllun addysg a gofal iechyd ac maent yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn Lloegr.

Daw bron pob un o'r disgyblion o gefndiroedd Saesneg eu hiaith.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2003. Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r ysgol wedi penodi staff addysgu newydd i ymestyn ystod cyfleoedd y cwricwlwm.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r ysgol wedi ymateb yn effeithiol i argymhellion yr ymweliad diwethaf. Mae cynllun gweithredu craff wedi arwain at nifer o welliannau yn gysylltiedig â'r argymhellion.

Mae staff yn ymgymryd ag asesiadau trylwyr iawn ac yn rheoli ymddygiad yn gyson ac yn effeithiol. Oherwydd hyn, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn dysgu rheoleiddio'u hymddygiad yn llwyddiannus iawn. Maent yn datblygu hunanhyder ac yn gwella'u hunan-barch. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn awyddus i rannu eu llwyddiannau.

Mae gan staff yn yr ysgol ddealltwriaeth sicr o anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'r gydberthynas rhwng staff a disgyblion yn arbennig o gynnes a pharchus. Mae ethos cadarnhaol yn yr ysgol, gyda ffocws priodol ar wella dysgu a lles disgyblion.

Mae amgylcheddau'r ystafelloedd dosbarth yn ddeniadol. Mae profiadau dysgu diddorol ac adnoddau helaeth yn cefnogi'r cwricwlwm. Mae gweithgareddau dysgu wedi'u cynllunio'n dda yn caniatáu i'r disgyblion fonitro'u cynnydd eu hunain a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu'u hunain.

Lle bo'r angen, mae'r ysgol yn cael cyngor arbenigwyr i ehangu ei darpariaeth ar gyfer therapi a rheoli ymddygiad. Hefyd, mae'n cyflogi staff addysgu ychwanegol i gyflwyno agweddau ar y cwricwlwm, fel TGAU mathemateg a ffiseg.

## Meysydd i'w datblygu

Mae staff yn yr ysgol wedi cynnal ymweliadau defnyddiol â nifer bach o ddarparwyr eraill i weld arfer dda. Fodd bynnag, nid oes ganddynt rwydwaith cryf eto o gefnogaeth sy'n eu galluogi i gynnal ymwybyddiaeth dda o ddatblygiadau newydd i'r cwricwlwm yng Nghymru.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod staff yn llunio cysylltiadau â darparwyr eraill priodol i gefnogi'u harfer broffesiynol barhaus yn gysylltiedig â'r cwricwlwm

## Cynnydd wrth fynd i’r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

### Argymhelliad 1: Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau cysylltiedig â gwaith

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae ymagwedd gynhwysfawr yn sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion ddigon o gyfleoedd i ddatblygu medrau cysylltiedig â gwaith, yn unol â’u hanghenion. Mae disgyblion yn ennill profiadau diddorol a buddiol i gefnogi’u medrau cysylltiedig â gwaith. Mae’r rhain yn cynnig sylfeini defnyddiol ar gyfer eu dysgu yn y dyfodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio yn llyfrgell yr ysgol ac yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar y tir, a lle y bo’n briodol, mae’r ysgol yn ymgysylltu â phartneriaid allanol i alluogi disgyblion i gael profiad o waith mewn caffi.

Mae’r ysgol wedi datblygu cyfleoedd achrededig yn y cwricwlwm i ddisgyblion ddysgu am arddwriaeth. Lle y bo’n briodol, mae disgyblion yn cofrestru ar gyrsiau hyfforddi rhan-amser yn y coleg addysg bellach lleol, lle y maent yn parhau i ddatblygu’u medrau. Mae asesiadau risg cynhwysfawr yn helpu i sicrhau diogelwch disgyblion sy’n gwneud profiad gwaith.

### Argymhelliad 2: Gwella cysondeb a chywirdeb asesu gan athrawon

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae’r ysgol wedi cyfnerthu gweithdrefnau asesu ac olrhain i sicrhau cysondeb ar draws yr holl staff. Mae’r holl ddisgyblion newydd yn cael asesiadau gwaelodlin addas, sy’n cael eu cynnal yn brydlon. Mae hyn yn helpu staff i ddeall anghenion disgyblion a datblygu targedau dysgu ac ymddygiad priodol. O ganlyniad, mae disgyblion bron bob amser yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni’u targedau.

Mae monitro ac arfarnu cynnydd disgyblion yn eu dysgu yn rheolaidd yn sicrhau bod athrawon erbyn hyn yn amlygu’n gyflym y meysydd lle y mae angen ymyrryd. Rhoddant strategaethau effeithiol ar waith i fynd i’r afael â’r rhain.

Mae’r ysgol yn cynnal asesiadau cywir o ymddygiad disgyblion ac yn ei reoli’n effeithiol. Mae hyn yn ategu cynllunio gan y staff ac yn cynorthwyo â chyflwyno gwersi sy’n ennyn diddordeb a brwdfrydedd disgyblion yn llwyddiannus.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1:  Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2:  Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3:  Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4:  Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5:  Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6:  Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7:  Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Aran Hall |
| **Rhif yr ysgol** | 6616022 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 25/04/2018 |
| **Perchennog** | The SENAD Group Limited |
| **Staff** | 5 athro amser llawn, 3 athro rhan-amser, 3 hyfforddwr, 1 therapydd, 4 cynorthwyydd ystafell ddosbarth, 71 o staff cymorth preswyl |
| **Nifer y disgyblion** | 11 |
| **Darpariaeth** | Preswyl 52 wythnos |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anableddau dysgu, anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth ac ymddygiad heriol cysylltiedig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 06/02/2017 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 08/07/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 03/04/2017 |